**GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH – TAFLEN 1**

**Pedwar cwestiwn pwysig i chi ateb yn y traethawd:**

- Beth ydych chi'n ei wybod am y gwaith a fydd yn help i ni ddeall mwy amdano?
- Beth yw prif neges yr awdur?
- Sut mae'n defnyddio iaith i gyfleu ei neges i ni?
- Beth yw eich barn chi am y gwaith?

# GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH – TAFLEN 2

**Mwy am yr elfennau i'w cynnwys yn y traethawd**

- ❖ **Cyflwyniad:** Cefndir hanesyddol/llenyddol **perthnasol**

**Fedrwch chi ychwanegu unrhyw wybodaeth am y gwaith a fydd yn help i ni ddeall mwy amdano?**

- Pa effaith gafodd digwyddiadau'r cyfnod (e.e. hanesyddol, gwleidyddol, llenyddol) ar y darn?
- Oes yna ddylanwadau allanol amlwg i'w gweld ar y gwaith? (e.e. llenorion eraill, Y Beibl)

*(Peidiwch â rhoi gormod o fanylion bywgraffyddol am yr awdur os nad ydyn nhw'n berthnasol i'r darn ei hun)*

- ❖ **Thema:** Beth yw **prif neges** yr awdur? (e.e. bod dewrder yn bwysicach na dim; nad yw cariad yn para; pod pobl y wlad yn wahanol i bobl y dref) *(Cofiwch: efallai bod mwy nag un thema).*

Peidiwch ag ailadrodd pob dim sy'n digwydd yn y darn – dim ond yr hyn sy'n berthnasol.

- ❖ **Arddull: Sut mae'r awdur yn defnyddio iaith i gyfleu ei neges i ni?**

Nodwch nodweddion amlwg yr arddull (gweler Taflen 3) ac ystyriwch sut y maen nhw'n berthnasol i'r thema (e.e. a yw'r awdur yn defnyddio iaith aruchel i sôn am ddewrder; yn defnyddio eironi wrth sôn am gariad; yn defnyddio tafodiaith arbennig ar gyfer pobl y wlad?)

- ❖ **Clo: Beth yw eich barn chi am y gwaith?**

Crynhowch eich traethawd mewn brawddeg neu ddwy. Yna rhowch eich ymateb personol chi i'r darn mewn dwy neu dair brawddeg. Oeddech chi'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi? Pam? A yw yn eich atgoffa chi am ryw ddarn arall o lenyddiaeth?

## GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH - TAFLEN 3

## ARDDULL

### Rhai pethau i edrych amdanynt:

### Rhyddiaith

- Beth yw safbwynt/llais yr awdur? Pam?
- Beth yw strwythur a *genre* y darn? Pam?
- A yw'n defnyddio tafodiaith? Pa fath? Pam?
- Llawer o ddeialog? Pam?
- Llawer o ddisgrifiad? Pam?
- Cymeriadu? Sut? Pam?

## Barddoniaeth

- Rhydd neu gaeth? Pam?
- Ffurf – e.e. cywydd, soned, baled? Pam?
- Oes yna fydr ac odl? Pam?
- Oes yna gyflythreniad?e.e. ***Cyn codi cŵn Caer*** Pam?
- Oes yna odl fewnol? e.e. ***a'r haf yn braf ar y bryn*** Pam?
- Oes yna rythm e.e. ***yn mynd fel trên, yn codi stêm, yn mynd yn gynt, mor chwim â'r gwynt*** Pam?

### Cyffredinol (Barddoniaeth a Rhyddiaith)

- Oes yna or-ddweud e.e. ***môr o gân***? Pam?
- Oes yna leihad e.e. ***roedd y Fam Teresa yn ddynes reit garedig*** Pam?
- Amser: gorffennol? presennol? dyfodol? cymysgedd? Pam?
- Oes yna gwestiynau rhethregol e.e. ***Beth yw'r haf i mi?*** Pam?
- Geiriau anarferol e.e. Saesneg neu ryw iaith arall, geiriau hir a chymhleth iawn? Pam?
- Cymariaethau, e.e. ***mor ddu â'r frân?*** Pam?
- Trosiadau, e.e. galw y ***nos yn frân?*** Pam?
- Eironi? Pam?
- Cyffyrddiadau barddonol - mewn rhyddiaith? Pam?
- Cyffyrddiadau rhyddieithol - mewn barddoniaeth? Pam?

**GWERTHFAWROGI LLENYDDIAETH – TAFLEN 4**

**PORTREAD/CYMERIADU – 5 cwestiwn i'w holi**

- Sut mae'r awdur yn disgrifio pryd a gwedd y cymeriad?
- Sut mae'r awdur yn disgrifio y pethau sy'n perthyn i'r cymeriad?
- Sut mae'r cymeriad yn siarad?
- Beth mae'r cymeriad yn ei wneud?
- Beth mae pobl eraill yn ei ddweud am y cymeriad?